

Dyma Aber

cynadleddau | digwyddiadau | derbyniadau | cyfarfodydd | diwrnodau cwrdd i ffwrdd | teithiau maes | gwyliau

aber.ac.uk/ymwelwyr



2

CaruAber

4

DigwyddiadauAber

6

CroesoAber

8

ArosAber

10

ChwaraeonAber

12

CreadigolAber

14

YsgolionAber

16

CyrchfanAber

18

Gwybodaeth Ddefnyddiol



Caru Aber



‘Lleoliad arbennig i gael profiadau arbennig’

Wedi'i lleoli ar arfordir y Canolbarth gyda golygfeydd trawiadol o'r mynyddoedd a'r môr, mae Aberystwyth yn ganolbwynt cosmopolitan bywiog, yn borth cyfarwydd rhwng y Gogledd a'r De. Gyda chyfoeth o fwytai a chaffis, troeon arfordirol a llwybrau beicio mynydd, mae gan Aberystwyth rywbeth at ddant pawb. Mae ymdeimlad balch o gymuned yma yn 'Aber'. Mae croeso cynnes i bawb yn y rhan unigryw hon o'r byd.

A hithau'n un o'r Prifysgolion hynaf yng Nghymru, rydym yn falch iawn o'n hetifeddiaeth ond rydym

hefyd yn gweithio i sicrhau llwyddiant ei dyfodol drwy ein hymrwymiad parhaus i ragoriaeth ym maes addysgu ac ymchwil. Gydag adnoddau o'r radd flaenaf a chroeso cynnes, rydym yn cynnig profiad eithriadol mewn amgylchedd arbennig i chi, beth bynnag fo'r achlysur, beth bynnag fo'r digwyddiad, beth bynnag fo'ch bwriad.

Hoffai Prifysgol Aberystwyth eich croesawu i Aber, eich croesawu i le a fydd yn eich ysbrydoli ond hefyd yn cynnig cyfle i chi ymlacio, lle llawn cyfleoedd a chreadigrwydd. Dewch i ddarganfod Aber, dewch i GaruAber



Digwyddiadau Aber

Os ydych chi eisiau cynnal cynhadledd fawr neu gyfarfod bach, os ydych chi'n chwilio am lety i grŵp o bobl neu wyliau haf byr neu'n cynllunio diwrnod arbennig neu ddigwyddiad cymdeithasol, mae ein tîm DigwyddiadauAber yma i'ch helpu. Dyma ein 'siop pob peth' ar gyfer eich holl ofynion. Mae gennym dîm o drefnwyr digwyddiadau proffesiynol a phrofiadol a fydd yn trefnu popeth ar eich cyfer gan roi amser i chi ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i chi.

Gall Prifysgol Aberystwyth drefnu digwyddiadau ar raddfa fwy na'r hyn y gall lleoedd eraill yn yr ardal ei gynnal. Gyda

dewis o ofodau amlbwrpas, cyfleusterau a gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddigwyddiadau, rydym yn hyderus y gallwn fodloni eich holl ofynion!



Gallwn gynnal:

- Cyfleusterau cynadledd a gwleddu
- Digwyddiadau Corfforaethol a Busnes
- Derbyniadau cymdeithasol
- Ystafelloedd cyfarfod
- Llety i unigolion a grwpiau
- Pecynnau gwyliau a theithlenni rhanbarthol
- Ymweliadau ag ysgolion ac ymweliadau addysgol
- Digwyddiadau Chwaraeon a Thwrnameintiau
- Gwyliau



'Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol a does gennyf ddim ond canmoliaeth am yr holl gymorth wrth gynllunio'r digwyddiad ac ar y diwrnod; fe wnaethoch chi bopeth yn hawdd i ni ac roedd y cyfan yn ymddangos mor ddiymdrech'

Youth Sport Wales



Am fwy o wybodaeth a manylion am brisiau cyfredol a beth sydd ar gael cysylltwch â thîm EventsAber ar 01970 621960 neu ebostiwch conferences@aber.ac.uk

Croeso Aber

CroesoAber yw brand ein gwasanaethau croeso, ac mae'n cyfleu'r croeso cynnes a gewch ym mhob un o'n bwytai, barrau a chaffis. Credwn yn gryf ym mhwysigrwydd bwyd da ac rydym yn hyderus y bydd eich profiad o fwyta yn un o'n lleoliadau bwyd arobryn yn un arbennig iawn. Caiff llawer o'n bwyd ei brynu'n lleol ac felly gellir sicrhau ansawdd. Mae ein cogyddion profiadol a phroffesiynol yn creu bwydlenni sy'n amrywio o brydau bwffe syml i wleddoedd hael.

Gall ein tîm CroesoAber ddarparu gwasanaeth arlwyo ar raddfa fawr ar gyfer unrhyw ddiwyddiad, os ydych chi eisiau derbyniad diodydd gyda'r nos a chanapés, neu luniaeth yn y bore neu'r prynhawn, pecynnau bwyd neu bitsas, mae gennym ddewis sy'n addas at bob cyllideb. Mae'n tîm gwybodus wedi'u hyfforddi'n drwyadl a gallant roi cyngor a chymorth wrth gynllunio bwyd a diod ar gyfer eich diwyddiad, ac arlwyo ar gyfer pob un o'ch gofynion dietegol.



Mae tîm CroesoAber yn gweithio yn y rhan fwyaf o'n prif leoedd bwyd gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Gynadleddau MedRus.



‘Cawsom amser gwych.
Roedd pawb wrth eu
bodd â'r lleoliad, yr
addurniadau, y telynor,
ac roedd y bwyd yn
wefreiddiol’

Aber Instruments

Aros Aber

Does dim yn well ar ôl diwrnod prysur na chyrraedd adre, troi'ch tegell ymlaen a rhoi eich traed i fyny. Rydym yn gwerthfawrogi cysuron y cartref yn Fferm Penglais, ein llety newydd o'r radd flaenaf, a gobeithio y byddwch chi'n teimlo'n gartrefol gyda ni.

Wedi'i ysbrydoli gan y dirwedd a phensaernïaeth cefn gwlad Cymru, mae ein datblygiad newydd yn cynnig ystafelloedd en suite hael, gwelyau dwbl, cegin cynllun agored, a lolfeydd. Gyda holl gysuron corfforol y dydd, megis teledu sgrin fflat, peiriant golchi llestri a Wi-Fi, rydym

yn gwybod y cewch chi brofiad 5*. Yn wir, Fferm Penglais yw'r llety Prifysgol cyntaf i gael 5* gan Croeso Cymru o fewn y categori Llety Campws.

Yn ogystal â Fferm Penglais, mae gennym amrywiaeth o lety gwahanol i fodloni eich gofynion penodol, boed hynny'n gyllideb benodol neu'r ffaith eich bod yn rhan o grŵp, rydym yn cynnig prisiau cystadleuol a pheccynnau i fodloni eich holl ofnion.



'mae'r cynllun yn rhagorol ac mae'n cynnig llety en suite i bob ymwelydd mewn fflatiau neu stiwdios hyfryd. Ceir cyfleusterau o'r radd flaenaf megis yr adnodd golchi beiciau a'r storfeydd, y golchdy, a'r ystafelloedd cyfarfod. Mae'r 'Hyb' yn ardal eistedd gyfoes i ymwelwyr a gwesteion. Mae'n cynnig llety myfyrwyr o'r safon uchaf posibl ar hyn o bryd'

Croeso Cymru



Chwaraeon Aber



Mae ChwaraeonAber yn cynnig dros 60 o ddsbarthiadau Ffit Rwydd yr wythnos, offer ffitrwydd o'r radd flaenaf a phwll nofio 25m, felly dyma'r lle perffaith i gadw'n heini.

Cyfleusterau Dan Do



Cyfleusterau Awyr Agored



ChwaraeonAber yw cartref hamdden, chwaraeon a gweithgareddau corfforol y Brifysgol. A hwythau ar flaen y gad o ran rheoli cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf yn broffesiynol, mae ein tîm ChwaraeonAber, sydd oll yn weithwyr proffesiynol cymwys ym maes chwaraeon, yma i'ch ysgogi a'ch ysbrydoli.

Mae'n cyfleusterau a'n gwasanaethau wedi bod yn gartref i Dwrnameintiau Pêl-droed Rhyngwladol, Gwersylloedd Hyfforddi Rygbi cyn y tymor, ysgolion haf a diwrnodau cwrdd i ffwrdd corfforaethol a gellir eu harchebu yn rhan o becyn cyfunol neu'u mwynhau'n annibynnol yn rhan o'ch ymweliad â ni.

Creadigol Aber



Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod gennym un o'r Canolfannau Celfyddydau mwyaf yng Nghymru ar ein prif gampws. Gyda golygfeydd arbennig dros y dref a Bae Ceredigion, mae Canolfan y Celfyddydau yn lle i ymdrochi yn y celfyddydau a thanio'ch dychymyg creadigol. Wedi'i chydabod fel 'banerlong genedlaethol ar gyfer y celfyddydau' mae gan Ganolfan y Celfyddydau rywbeth i'w gynnig i bawb.

Yn ystod eich amser gyda ni, dewch i gael eich difyrru gan ein rhaglen artistig eang ym maes drama, dawns, comedi a cherddoriaeth, neu dewch i wylïo ffilm neu weld arddangosfa i'ch helpu i ymlacio a dadflino. Mae Canolfan y Celfyddydau yn lle perffaith i stopio am rywbeth i'w fwyta a'i yfed, ac i dreulio amser yn chwilio am yr anrheg berffaith yn un o'n siopau.

Ac nid lleoliad am adloniant yn unig yw Canolfan y Celfyddydau, mae hefyd yn lleoliad gwych ar gyfer digwyddiadau busnes a chynadleddau gyda gofodau amlbwrpas, arbenigedd technegol, a staff profiadol ym maes trefnu digwyddiadau a gweithrediadau. Gall Canolfan y Celfyddydau hefyd gynnig amrywiaeth o ddsbarthiadau ym maes y celfyddydau gweledol a'r celfyddydau perfformio, perffaith ar gyfer ymarferion adeiladu tîm neu am hwyl yn unig! Dros y blynyddoedd mae Canolfan y Celfyddydau wedi cynnal digwyddiadau yn amrywio o Briodasau i Wylïau Rhyngwladol mawr felly ffoniwch ein tîm i drafod y posibilïadau.

Dychymyg yw'r unig beth sy'n cyfyngu ar greadigrwydd, felly os gallwch chi feddwl amdano, gallwn ni ddod o hyd i ffordd i'w greu.



'Hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am eich croeso arbennig ddoe, ac am yr wythnosau a'r misoedd o waith caled yn paratoi ar gyfer y digwyddiad. Rydym wedi cael adborth arbennig gan arddangoswyr yn ogystal â phriodferched, eu ffrindiau a'u teuluoedd.

Aeth popeth yn hynod o esmwyth, ac roedd y technegwyr a'r porthorion ar y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn yn arbennig. Fe ddaeth llawer iawn o bobl i'r digwyddiad, ac roeddem wrth ein bodd'

Aberystwyth Wedding Show

Ysgolion Aber

Fel prifysgol, rydym yn deall beth yw pwysigrwydd addysg dda - mae dysgu ac addysgu yn ganolbwynt i bopeth yr ydym yn ei wneud. Prifysgol Aberystwyth yw'r dewis perffaith ar gyfer ymweliadau addysgol, cyfleoedd am waith maes neu deithiau hamdden.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth, llety delfrydol, dewis o arlwyfaeth, a chyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf - y cwbl yn hanfodol i gynnal cwrs llwyddiannus. Gallwn hefyd eich helpu i gydlynu darlithoedd rhagarweiniol am Brifysgol Aberystwyth, stociau o offer gwaith maes ac adnoddau seminar, darlithio a labordai ardderchog.

Gydag amrywiaeth o adnoddau chwaraeon a hamdden ar y campws a'n Canolfan Gelfyddydau arobryn, gallwch fod yn siŵr y bydd eich disgyblion yn cael ymweliad i'w gofio.

Mae gan Aberystwyth un o'r golygfeydd mwyaf trawiadol o blith holl Brifysgolion Prydain. Mae wedi'i lleoli ar yr arfordir sy'n golygu bod gennych ddigonedd o ddewis o draethau, chwaraeon awyr agored a llwybrau cerdded.

I weld lleoliadau'r gwaith maes a'r technegau astudio ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni am lyfryn.



'Cawsom amser hyfryd yn ymweld ag Aberystwyth rhwng 30 Mehefin a 3 Gorffennaf. Dywedodd y disgyblion bod y bwyd yn wych ac rydym yn cytuno â nhw. Roedd yr ystafelloedd yn gyfforddus a glân hefyd. Diolch, gobeithiwn ymweld eto'

Coleg Chweched Dosbarth St Brendan

Cyrchfan Aber



Credwn o waelod calon bod Aberystwyth yn gyrchfan arbennig i ymwelwyr. Mae wedi'i lleoli'n berffaith i brofi Cymru ar ei gorau. Mae'r daith yr un mor bwysig â'r gyrchfan a gyda'n gilydd gallwn roi cyngor am y llwybrau teithio a'r teithlenni sy'n eich galluogi i weld golygfeydd trawiadol, trefi darluniaidd, safleoedd chwedlonol hanesyddol, neu hyd yn oed leoedd i stopio am antur!

I'r rhai nad ydynt wedi ymweld â ni o'r blaen, Aberystwyth yn ddarganfyddiad annisgwyl. Arhoswch gyda ni am Wyliau Haf neu estynnwch eich arhosiad ar ôl digwyddiad busnes i gael cyfle i weld beth sydd gan Aberystwyth, Ceredigion a Chymru i'w cynnig. Beth bynnag fo'ch diddordebau, bydd gan Aberystwyth a'r ardaloedd cyfagos rywbeth i'w gynnig, o droeon arfordirol i feicio mynydd, traethau aur i atyniadau hanesyddol, cyfoeth diwylliannol i economi nos ffyniannus.



Gwybodaeth am Deithio

Trên

Mae gwasanaethau trên yn rhedeg yn rheolaidd i Aberystwyth o Ogledd Cymru ac o Ganolbarth Lloegr (mae pob gwasanaeth o gyfeiriad y dwyrain yn mynd drwy Amwythig). Gweler gwefan [Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol](#) am amserau'r trenau ac am y gwahanol lwybrau (Saesneg yn unig).

Bws

Mae nifer o wasanaethau bws a choets y gellir eu defnyddio i deithio i Aberystwyth o rannau eraill o Gymru a Lloegr. Mae gwefan [Traveline Cymru](#) yn ffordd dda o ddod o hyd i'r gwasanaeth yr ydych ei angen.

Car

Mae'n hawdd cyrraedd Aberystwyth mewn car. Mae golygfeydd hardd i'w gweld o ba gyfeiriad bynnag y byddwch yn teithio. O'r dwyrain mae'r A44 yn dringo trwy Fryniau Cambria ac i lawr at yr arfordir, ac o'r gogledd neu'r de mae'r A487 yn cynnig golygfeydd trawiadol dros Fae Ceredigion.

Llywio Lloeren: SY23 3BY

Teithio o Bell

Gall ymwelwyr sy'n cyrraedd ar awyren, fferi neu'r Eurostar gysylltu â'r tîm digwyddiadau i gael gwybodaeth, mapiau a dewisiadau teithio i gyrraedd Aberystwyth.

Mapiau o'r Brifysgol

I gael rhagor o wybodaeth am Gampws y Brifysgol, ei lleoliad a'i hadnoddau, gweler <https://www.aber.ac.uk/en/maps-travel/maps/>



Gwybodaeth Gyffredinol

Faint o bobl all eich lleoliadau eu dal?

Gall ein hawditoriwm mwyaf ddal hyd at 1,000 o bobl, ac mae gennym ystod o leoliadau a gofodau sy'n amrywio o awditoria gyda seddi gosod ar ogwydd, ystafelloedd seminar, a labordai cyfrifiadurol, i ofodau hyblyg, amlbwrpas yng Nghanolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr a'r Hen Goleg.

Beth yw'r costau ar gyfer llogi lleoliad?

Mae'r costau llogi lleoliad yn cychwyn o £50+TAW i logi ystafell gyfarfod fach am hanner diwrnod i £300+TAW i logi gofodau mwy. Gallwch sicrhau defnydd cyfyngedig o leoliadau allweddol ledled y campws am gyn lleied â £500+TAW.

Pryd mae'r cyfleusterau ar gael?

Mae ein cyfleusterau cyfarfod a chroeso ar gael trwy gydol y flwyddyn. Mae llety ar y campws ar gael yn ystod gwyliau haf y Brifysgol, ond mae rhywfaint o lety ar gael yn ystod y tymor hefyd.

Beth yw manteision archebu llety Prifysgol?

Fel Prifysgol mae gennym brofiad o groesawu grwpiau mawr ac mae gennym amrywiaeth o neuaddau i fodloni'r rhan fwyaf o gyllidebau. Mae gennym dros 3,000 o welyau ar gael dros fisoedd yr haf. Mae'r prisiau'n dechrau o £18+TAW y pen am bob noson, ac mae'r pris yn cynnwys mynediad am ddim i'n cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf, Wi-Fi rhad ac am ddim ledled y campws, a thocynnau parcio.

A allwch chi ddarparu arlwyath?

Gall ein timau croeso ddarparu arlwyath ar gyfer unrhyw achlysur, pa un ai eich bod eisiau derbyn diodydd gyda chanapés, cinio cynhadledd, neu fwffe poeth neu oer, neu ddim ond lluniaeth trwy gydol y dydd. Ymhellach, mae gennym amrywiaeth o leoedd bwyd ledled y campws i fodloni holl ofynion ein hymwelwyr.

A oes cyfleusterau parcio yn y lleoliad?

Mae lle parcio ar y safle ar gael ledled y campws ar gyfer ymwelwyr dydd ac ymwelwyr preswyl. Bydd ymwelwyr preswyl yn cael trwydded barcio yn rhan o'r broses archebu. Gellir darparu mapiau o'r meysydd parcio yn rhan o unrhyw archeb.

Sut mae archebu lle neu wneud ymholiad?

I archebu cysylltwch â'n tîm digwyddiadau ar conferences@aber.ac.uk neu ffoniwch **01970 621960**.

Dyma **Aber**

#LoveAber #CaruAber